Tribiwnlys Prisio Cymru
Valuation Tribunal Wales

# Adroddiad Blynyddol 2025/2026

## Tribiwnlys Prisio Cymru

Carolyn Dawson (Prif Swyddog Gweithredol)

# Tabl Cynnwys


| **Adrannau** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| | Rhagair gan Lywydd Cenedlaethol Tribiwnlys Prisio Cymru | 2 |
| | Rhagair gan y Prif Weithredwr | 3 |
| | Baich gwaith, apelau pellach a chwynion | 4 |
| | Mentrau Cymraeg | 8 |
| | Aelodaeth | 9 |
| | Technoleg Gwybodaeth | 10 |
| | Hyfforddi | 11 |
| | Cyngor Llywodraethu | 12 |
| | Staffio | 12 |
| | Ystadau, cyfleusterau a thechnoleg | 14 |
| | Cyllid | 15 |
| **Datganiadau a lofnodwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol (yn ofynnol o dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)** | | |
| | Datganiad Llywodraethu | 17 |
| | Datganiad Swyddogaethau'r Swyddog Cyfrifyddu | 18 |
| **Atodiadau** | | |
| **A** | Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd | 20 |
| **B** | Data Clirio Apelau 2025/26 | 21 |
| **C** | Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) – tabl canlyniadau | 22 |
| **D** | Diffiniadau KPI ar gyfer 2025/26 | 23 |
| **E** | Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2025/26 | 24 |
| **F** | Strwythur Trefniadaethol | 25 |

## Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

**Rhagair y Llywydd:**

Fel Llywydd y Cyngor llywodraethu, mae'n dda gen i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer 2025–2026. Blwyddyn o drawsnewid, cyflenwi parhaus a pharatoi gofalus am newid yn y dyfodol fu eleni. O bersbectif llywodraethiant, mae ffocws y Cyngor wedi aros ar sicrhau bod Tribiwnlys Prisio Cymru'n dal i weithredu gydag annibyniaeth, uniondeb, atebolrwydd ac ymrwymiad clir i wasanaethu'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd gweithredol cryf, gan gynnwys clirio gwaddol yr apelau ardrethu annomestig i raddau helaeth a chyflawni'r rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â baich gwaith. Hefyd, mae'r Cyngor wedi nodi'r pwysau a grëwyd gan y cynnydd sylweddol yn nifer yr apelau Treth Gyngor, gyda llawer o hyn yn codi oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Tribiwnlys. Yn y cyd-destun hwnnw, mae perfformiad parhaol y corff yn adlewyrchu rheolaeth gadarn, arolygiaeth effeithiol ac ymroddiad yr aelodau a'r staff.

Nid yw llywodraethiant da yn ymwneud â chwrdd â'r gofynion cyfredol yn unig; mae'n ymwneud hefyd â sicrhau bod y corff yn barod ar gyfer cyfrifoldebau'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi cefnogi buddsoddi mewn recriwtio, hyfforddi, technoleg ag isadeiledd, gan gynnwys datblygu gwasanaethau apelio ar-lein, cyflwyno tabledi ar gyfer gwaith y tribiwnlys a sefydlu swyddfa Gogledd Cymru. Mae'r camau hyn yn cryfhau gwydnwch a byddant yn helpu i baratoi'r Tribiwnlys ar gyfer y cylchoedd ailbrisio sydd ar y gweill.

Hefyd, mae'r Cyngor wedi parhau i fonitro ymrwymiad y corff i hygyrchedd, tegwch a darparu gwasanaeth dwyieithog. Rwyf yn croesawu'r cynnydd a wnaed wrth gryfhau gallu yn y Gymraeg, a chydymffurfio â'r Safonau Cymraeg statudol. Mae'r datblygiadau hyn yn cefnogi dyletswydd ehangach y Tribiwnlys i ddarparu gwasanaeth sy'n agored, yn gynhwysol ac yn ymateb i bobl Cymru.

Mae stiwardiaeth ariannol wedi aros yn rhan bwysig o swyddogaeth goruchwylio'r Cyngor. Mae'r Tribiwnlys wedi parhau i reoli ei adnoddau'n ddoeth, gan gyflwyno gwasanaethau o fewn y gyllideb tra'n cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn capasiti, cynllunio ar gyfer olyniaeth a bod yn barod am y dyfodol. Mae'r tanwariant a adroddir eleni yn adlewyrchu, yn rhannol, amserlenni ailbrisio gafodd eu hoedi a gweithgarwch recriwtio parhaus, ond mae'r corff mewn sefyllfa dda o hyd i ymateb i alw'r dyfodol.

Cwrddodd y Cyngor Llywodraethu'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn gan barhau i gyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r Ddogfen Fframwaith ac egwyddorion bywyd cyhoeddus. Edrychwn ymlaen at benodi cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru fydd yn cryfhau cyfansoddiad y Cyngor ymhellach. Ar ben hynny, rwyf yn croesawu'r ffaith na chyfeiriwyd unrhyw gŵynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn adrodd.

Hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau Cyngor am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad, a datgan fy ngwerthfawrogiad i aelodau'r Tribiwnlys, i'r Cadeiryddion, i'r Prif Weithredwr ac i'r staff i gyd am eu proffesiynoldeb a'u gwasanaeth. Mae eu gwaith caled ar y cyd wedi bod yn fodd i'r Tribiwnlys gynnal safonau uchel wrth ymbaratoi'n gyfrifol am yr heriau o'i flaen.

Gyda fy niolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

C.A. Cobert

**Carol Cobert - Llywydd - Tribiwnlys Prisio Cymru**

# Rhagair gan y Prif Weithredwr

**Rhagair y PSG:**

Mae'n dda gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer 2025–2026.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o gyflenwi parhaus, gwydnwch a pharatoi'n ofalus am y dyfodol, ac rwyf yn falch o'r ffordd mae'r corff wedi ymateb i'r newid a'r her.

Camp arwyddocaol yn ystod y flwyddyn fu llwyddo i gwblhau nifer sylweddol o apelau adrethu annomestig oedd yn waddol y rhestri prisio blaenorol. Mae hyn yn cynrychioli carreg filltir bwysig i'r Tribiwnlys ac yn rhoi sylfaen gryfach i ni wrth baratoi ar gyfer cylchoedd ailbrisio bob tair blynedd yn y dyfodol.

Ar yr un pryd, rydym wedi gorfod ymateb i gynnydd sylweddol yn nifer yr apelau Treth Gyngor, gyda llawer o hyn yn codi oherwydd materion y tu hwnt i'n rheolaeth. Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'r Tribiwnlys wedi parhau i berfformio'n gryf, gan gyflawni'r mwyafrif o'i ddangosyddion perfformiad allweddol a chynnal safon uchel o wasanaeth i'r sawl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Mae tegwch, prydlondeb a hygyrchedd yn aros wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud. Felly, mae'n dda iawn gen i na chyfeiriwyd unrhyw gŵynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn.

Hefyd, rydym wedi parhau i gryfhau'r drefniadaeth am y blynyddoedd i ddod. Mae buddsoddi mewn technoleg, gan gynnwys cyflwyno tabledi a datblygu pyrth apelio ar-lein, yn ein helpu i foderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn ei gwneud hi'n haws i gyrchu ein gwasanaethau. Ochr yn ochr â hyn, mae ein buddsoddiad parhaus mewn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a osodwn ar gefnogi staff ac aelodau i wneud eu gwaith gyda hyder a'r sgiliau angenrheidiol.

Mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth o hyd. Ces i fy nghalonogi gan yr ymatebion cadarnhaol oddi wrth gydweithwyr, gyda mwy na hanner y staff yn mynegi diddordeb mewn datblygu eu sgiliau Cymraeg, a'r cynnydd ehangach hefyd wrth i ni gryfhau ein darpariaeth o wasanaethau dwyieithog.

Yn ariannol, mae'r corff wedi parhau i reoli ei adnoddau yn ofalus ac unwaith eto, mae wedi cyflwyno gwasanaeth o fewn ei gyllideb. Mae'r tanwariant a nodir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu rheolaeth ariannol ddoeth ac effaith yr oedi o ran terfynau amser ailbrisio. Mae cyllideb sylfaenol bresennol TPC yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r galw yn y dyfodol.

Mi fydd heriau o'n blaenau, yn enwedig wrth reoli niferoedd uchel o apelau Treth Gyngor ac adeiladu capasiti'r gweithlu cyn yr ailbrisio nesaf. Fodd bynnag, rydym eisoes yn cymryd camau ymarferol i gryfhau ein gwasanaeth. Bydd recriwtio parhaus, cynllunio olyniaeth a buddsoddi yn yr isadeiledd yn help i sicrhau ein bod yn barod am y cynnydd yn y baich gwaith a ddisgwylir yn y blynyddoedd i ddod.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau a staff y Tribiwnlys am eu proffesiynoldeb, eu hymroddiad a'u hyblygrwydd trwy gydol y flwyddyn. Mae eu hymrwymiad wedi galluogi'r Tribiwnlys i barhau i roi gwasanaeth ansawdd uchel a hygyrch i bobl Cymru. Wrth edrych ymlaen, mae ein ffocws yn aros ar adeiladu capasiti, gwella ein gwasanaethau a chynnal y safonau a ddisgwylir gan Dribiwnlys Prisio Cymru.




**Prif Swyddog Gweithredol - Tribiwnlys Prisio Cymru**


## 1. Baich gwaith, apelau pellach a chwynion

### Ardrethu Annomestig [AAN]

1.1 Ar 1 Ebrill 2025, cariodd Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) 444 o apelau AAN ymlaen o'r flwyddyn flaenorol ac yn ystod y flwyddyn, 60 apêl newydd yn unig a dderbyniodd. Roedd y rhan fwyaf o'r apelau newydd yn apelau rhestr 2023 a chyflwynwyd y mwyafrif ohonynt gan un asiant.

1.2 Rhestrodd TPC 649 o achosion AAN yn ystod y flwyddyn, 1,749 yn llai na'r llynedd. Esgorodd cyfanswm o 27 apêl ar wrandawiadau llawn o flaen TPC a 378 o setliadau. Ar ddiwedd y flwyddyn 60 apêl yn unig a gariwyd ymlaen i 2026/27.




1.3 Mae'r ffigurau hyn yn dangos fod y flwyddyn adrodd wedi'i nodweddu gan gyfnod o drawsnewid. Mae'r rhan fwyaf o'r apelau oedd yn waddol rhestri 2010 a 2017 wedi cael eu clirio, sy'n ganlyniad cadarnhaol. Dim ond nawr mae cwblhau rhestr brisio 2023 yn dechrau creu llif o apelau, tra bod paratoadau ar y gweill i gyflwyno cylch ailbrisio tair blynedd newydd ar gyfer ardrethu annomestig. Os bydd y duedd hon yn parhau, mae apelau sy'n ymwneud â rhestr brisio 2026 yn debygol o ddod i'r fei o 2029 ymlaen.


## Prisio'r Dreth Gyngor [PDG]

1.4 Cafodd y baich gwaith ar gyfer apelau Prisio'r Dreth Gyngor (PDG) ei effeithio'n andwyol gan faterion yn ymwneud â system TG newydd y Swyddfa Brisio (SB). Mae hyn wedi creu sefyllfa anarferol i TPC gan fod y KPI a nodwyd yn y cynllun symud ymlaen heb gael ei gyflawni am yr ail flwyddyn yn olynol.

1.5 Cariodd TPC 698 o achosion ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Fel arfer disgwyliai dderbyn tua 2,000 o apelau PDG newydd bob blwyddyn; fodd bynnag, o'r 1,858 apêl a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafodd y rhan fwyaf eu trosglwyddo y tu allan i'r terfyn amser statudol a chyraeddasant mewn swmp yn ystod y chwarter olaf.

1.6 Yn ystod y flwyddyn adrodd, rhestrwyd 1040 o apelau PDG i'w clywed, penderfynwyd ar 348 mewn Tribiwnlys a datryswyd 719.

1.7 Dylanwadwyd ar nifer y rhestriadau gan yr oedi o ran derbyn trosglwyddo apelau, nad oedd yn ymddangos tan yn hwyr yn y flwyddyn adrodd, yn ogystal â'r cyfyngiadau o ran adnoddau o fewn y SB. Er hynny, roedd gan TPC ddigon o gapasiti i ymdopi â niferoedd uwch o restriadau.





## Treth Gyngor - Arall

1.8 Ar gyfer pob apêl Treth Gyngor arall, dangosodd y niferoedd gynnydd bach o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Cariodd TPC 31 o apelau ymlaen a derbyniodd 147 arall yn ystod y flwyddyn adrodd.

1.9 Rhestrwyd cyfanswm o 175 o achosion. O'r rhain cafodd 50 achos eu penderfynu, gyda 27 yn cael eu setlo mewn Tribiwnlys, gan adael 101 o achosion i'w cario ymlaen i'r flwyddyn newydd.

1.10 Mae'r categori hwn o apêl yn dal i fod y llif gwaith mwyaf cyson ac mae'n denu'r nifer uchaf o ran presenoldeb yng ngwrandawiadau'r Tribiwnlys.




## Apelau Cymraeg

1.11 O ran apelau Cymraeg, derbyniodd TPC gyfanswm o 7 apêl. Gan gynnwys y rhai hyn a dderbyniwyd a'r apelau hynny a ddygwyd ymlaen, rhestrwyd 24 apêl Gymraeg i'w clywed: gohiriwyd neu oedwyd 7, ac aeth 6 ymlaen i wrandawiad llawn mewn tribiwnlys, gyda'r 11 sy'n weddill yn cael eu datrys heb fod angen gwrandawiad.

## Trosolwg

1.12 Dangosir y crynodeb cyffredinol o lwyth achosion TPC ar gyfer 2025-26 isod:

| Math ar Apêl | Apelau a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol | Achosion ychwanegol a dderbyniwyd mewn blwyddyn | Achosion a benderfynwyd | Achosion heb eu penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| Rhestr AAN 2010 | 4 | 0 | 4 | 0 |
| Rhestr AAN 2017 | 439 | 1 | 417 | 23 |
| Rhestr AAN 2023 | 0 | 52 | 21 | 31 |
| AAN Amrywiol | 1 | 7 | 2 | 6 |
| Treth Gyngor | 729 | 2005 | 1144 | 1590 |
| CYFANSWM | 1173 | 2065 | 1588 | 1650 |

1.13 Cyflawnodd TPC 9 o'i 11 Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) sy'n gysylltiedig â baich gwaith eleni. Y 2 a fethwyd oedd:

1.13.1 Rhestru apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn 6 mis ar ôl eu derbyn

1.13.2 Clirio apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno.

1.14 Cafwyd 1,117 o restriadau tro cyntaf ar gyfer apelau Treth Gyngor yn ystod y flwyddyn, o'r rhain cwrddodd 631 (56%) â'r targed chwe mis. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf niferoedd uchel o apelau a llai o gapasiti rhestru o ganlyniad i'r oedi a gysylltwyd â system TG newydd y SB. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r

canlyniad yn cynrychioli perfformiad cryf gan TPC o dan bwysau gweithredol sylweddol.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd y rhan fwyaf o apelau'n dal i gwrdd â'r targed rhestru chwe mis, gan adlewyrchu cryn ymdrech o dan amgylchiadau eithriadol.

1.15 Anelodd TPC at glirio 95% o apelau Treth Gyngor o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno. Eleni, roedd 996 o'r 1,138 o gliriadau'n ymwneud ag achosion oedd yn llai na 12 mis oed, sy'n golygu bod 12.5% o'r achosion a gliriwyd wedi cael eu cofrestru am fwy na 12 mis cyn eu datrys. Y prif resymau am beidio â chwrdd â'r KPI hwn oedd niferoedd uchel yr apelau, ynghyd â chapasiti rhestru llai, ar gais y SB, oherwydd materion yn ymwneud â'i system TG newydd.

*Apelau pellach*

1.16 Yn ystod y flwyddyn, apeliwyd 2 benderfyniad Ardrethu Annomestig i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Diroedd). Setlwyd yr un gyntaf, Aber Roof Truss Cyf, Glannau Dyfrdwy, gan orchymyn cydsynio. Disgwylir canlyniad yr ail un, HDR Group Merthyr Industrial Services Cyf.

*Cwynion*

1.17 Ni chodwyd unrhyw gŵynion yn erbyn y Tribiwnlys gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

## 2 Mentrau Cymraeg

2.1 Mae TPC wedi parhau i godi ei broffil a hybu ei wasanaethau trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol mawr gan gynnwys y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â'r cyhoedd, hybu gwasanaethau Cymraeg, a chefnogi recriwtio aelodau.

2.2 Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Tîm Cymraeg, sy'n cael ei arwain gan staff mewnol TPC, wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gryfhau darpariaeth Gymraeg y corff, gwella gallu staff, a sicrhau cydymffurfiad parhaus â'r Safonau Cymraeg statudol.

2.3 Mae ymgysylltu'r staff wedi parhau i gynyddu trwy'r flwyddyn. Cwblhawyd ymarfer hunanasesu Cymraeg gan yr holl staff oedd yn fodd i greu proffil sgiliau Cymraeg cynhwysfawr. Mae hyn wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr ar gapasiti trefniadaethol ac wedi hysbysu cynllunio ar gyfer y gweithlu, ystyriaethau recriwtio a blaenoriaethau hyfforddi. Yn benodol, mynegodd dros 50% o'r staff ddiddordeb mewn gwella eu sgiliau Cymraeg.


2.4 Cwblhaodd chwech aelod o staff gwrs dwys Cymraeg i ddechreuwyr yn Chwefror 2026.

2.5 Trefnwyd cefnogaeth strwythuredig bellach trwy raglenni codi hyder a gyflwynwyd gan Dysgu Cymraeg Cymru, gan gynnwys mentora un-i-un a datblygiad iaith wedi'i seilio ar y gweithle.

2.6 Mae gwaith ar eiriadur o dermau technegol, wedi'i seilio ar waith cyfieithu, wedi gwneud cynnydd. Bydd hyn yn cynorthwyo cysondeb a manwl gywirdeb yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn TPC. Gobeithio y bydd modd gwneud yr adnodd hwn ar gael i'r cyhoedd a all fod yn ystyried gofyn am wrandawiad Cymraeg trwy gyhoeddiad ar ein gwefan yn y flwyddyn adrodd nesaf.

2.7 Yn gyffredinol, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld cynnydd mesuradwy cryf o ran ymwreiddio'r Gymraeg ar draws y corff. Gyda lefelau uchel o ymgysylltu ar ran y staff, cadarnhau cydymffurfio â'r safonau statudol, a ffocws clir ar ddatblygu i'r dyfodol, mae'r corff mewn sefyllfa dda i gryfhau'r gwasanaeth dwyieithog mae'n ei ddarparu ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

## 3 Aelodaeth




3.1 Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd hon roedd yr aelodaeth wedi codi i 64. Ychydig o gynnydd ar y flwyddyn flaenorol pan ddechreuon ni gyda 62 aelod.

3.2 Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, bu farw 2 aelod ac ymddiswyddodd 3 aelod. Hefyd, cafwyd 7 penodiad newydd yn 2025. Canlyniad net hyn oedd ychydig o gynnydd yn niferoedd yr aelodaeth.

3.3 Felly, parhaodd TPC gyda'i ymdrechion i gynyddu lefel yr aelodau sy'n cael eu recriwtio.

3.4 Fel nodwyd o'r blaen, mynychodd TPC yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam ynghyd â'r Sioe Frenhinol a'r Ffair Aeaf yn Llanfair ym Muallt. Hefyd, aethpwyd â'n stondin i Ffair Fusnes yng Nghaerdydd a Chynhadledd Genedlaethol IRRV yn Telford.


3.5 Mae mynd i ddigwyddiadau o'r fath yn talu ar ei ganfed. Recriwtiodd TPC 7 aelod newydd yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan recriwtiwyd 3 yn unig. Y broblem yw mai troedio dŵr yw hyn yn hytrach na chynyddu nifer cyffredinol yr aelodau.

3.6 Dengys ystadegau aelodaeth fod recriwtio'n iach, gyda mwy na 30% o'r aelodau yn ymuno yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a 55% o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

3.7 Mae ymrwymiad TPC i gynyddu ei aelodaeth yn gryf o hyd a bydd yn parhau i redeg ymgyrchoedd wyneb yn wyneb a thrwy ddefnyddio offer fel fideos recriwtio ar ei wefan a chynyddu ei bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol wrth symud ymlaen.

3.8 Trwy roi'r strategaethau hyn ar waith, nod TPC yw defnyddio ei adnoddau'n effeithlon i atgyfnerthu ymdrechion recriwtio er mwyn sicrhau bod ganddo ddigon o aelodaeth i ymdopi â'i gyfrifoldebau ailbrisio yn y dyfodol.

3.9 Mae'r newidiadau mewn aelodaeth eleni wedi esgor ar newid bychan yn unig i'r proffil oedran cyffredinol. Y ffactor mwyaf amlwg yw cydbwysedd rhywedd, o'r 64 o aelodau, mae 48 yn ddynion (75%) ac 16 yn fenywod (25%), sy'n dangos anghydbwysedd rhywedd sylweddol o blaid cynrychiolaeth gwrywod. *[gw Ffigur 1 isod]*




*Ffigur 1*

3.10 Mae 29% o'r aelodath yn rhugl yn y Gymraeg; er siom inni dyma ychydig o leihad ar ffigur y llynedd sef 31%.

## 4. TG

4.1 Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol i staff TG TPC. Camp allweddol fu cyflwyno tabledi i'r aelodau a'r staff ynghyd ag ap a ddatblygwyd i arddangos papurau achos a dogfennau gwrandawiadau at ddefnydd cyfarfodydd tribiwnlys. Mae defnyddio dyfeisiadau llaw yn helpu i liniaru risgiau GDPR trwy leihau'r ddibyniaeth ar gopïau papur dogfennau apêl a thribiwnlys. Datblygiad sylweddol arall fu creu porth ar-lein pellach i gofrestru apelau Treth Gyngor, yn dilyn newidiadau i reoliadau'r Dreth Gyngor a ddaeth i rym yn Chwefror 2026. Mae'r porth yn gwbl ddwyieithog sy'n golygu bod modd i apelyddion gofrestru apelau ar-lein yn eu dewis iaith, yn unol â gofyniad y ddeddfwriaeth.

4.2 Roedd yn hen bryd i wefan TPC gael ei hailwampio, felly yn 2025 comisiynwyd dylunydd gwe o Gaerdydd i ailddylunio ei wefan. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir i'r safle newydd gael ei lansio yn ystod 2026/27.

4.3 Dros y flwyddyn adrodd, mae'r staff wedi derbyn hyffoddiant Cyber Security a Microsoft Excel. Mae hyfforddiant TG yr aelodau wedi canolbwyntio ar ddefnyddio'r tabledi a'r ap newydd i reoli dogfennau apêl.

## 5. Hyfforddi

5.1 Cynhaliodd tîm hyfforddi mewnol ymroddgar TPC ei raglen hyfforddi fwy nag arfer trwy gydol y flwyddyn adrodd hon i sicrhau ymgysylltiad yr aelodau a'r staff yn ystod bwlch dros dro yn niferoedd yr apelau.

5.2 Roedd y sesiynau hyfforddi yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- **Diwrnodau Hyfforddi Aelodau Cymru-Gyfan:** Sesiynau hyfforddi rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar hybu arfer orau mewn gwrandawiadau tribiwnlys gyda sylw penodol i gynnal gwrandawiadau a meithrin ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y Tribiwnlys.
- **Seminar Cadeiryddion:** Seminar 2 ddiwrnod clir ei ffocws ar gyfer cadeiryddion yn benodol.
- **Cyfarfodydd Rheolaidd o'r Cadeiryddion:** Mae'r rhain yn rhoi fforwm gwerthfawr ar gyfer trafod a dadlau ymhlith yr uwch-aelodau, gan gefnogi dysgu parhaus, cyfnewid syniadau, a rhwydweithio.

5.3 Mae TPC wedi parhau i ddatblygu'r defnydd o ffrydio byw o fewn ei sesiynau hyfforddi. Mae hyn wedi profi'n llwyddiant, gyda recordiadau o ddigwyddiadau hyfforddi yn cael eu llwytho i fyny i gronfa ddata'r Aelodau fel bod y sawl sy'n methu â bod yn bresennol mewn unrhyw ffordd yn medru eu cyrchu fel adnoddau hyfforddi. Ystyrir hyn yn erfyn gwerthfawr, a bydd TPC yn parhau i'w fireinio a datblygu'r defnydd ohono.

5.4 Cefnogwyd datblygiad staff gan gyfleoedd hyfforddi mewnol ac allanol i'r staff i gyd. Yn fewnol, mae cyfarfodydd ymarferwyr deufisol wedi parhau, gan roi fforwm ar gyfer deialog agored a chyfnewid proffesiynol. Hefyd mae TPC wedi sefydlu Tîm Deddfwriaethol, Ymarfer a Gweithdrefn a arweinir gan y Rheolwyr Gweithredol. Mae'r grŵp hwn yn rhannu tîm y Clercod yn ddau weithgor i adolygu deddfwriaeth newydd a chyfraith achosion yn fanwl, gan roi modd i staff archwilio egwyddorion gwaelodol a goblygiadau ymarferol pob mater.

5.5 Yn allanol, mae pedwar Clerc Tribiwnlys yn sefyll arholiadau Technegydd y Sefydliad Refeniw, Ardrethu a Phrisio [IRRV] ac mae cyrsiau'r IRRV ar-lein ar faterion ardrethu a phrisio wedi bod yn erfyn pwerus i'r staff i gyd.

5.6 Hefyd, mae Clercod Tribiwnlys wedi mynychu cynhadledd IRRV yn Milton Keynes, Caerdydd a Telford, sy'n dwyn ynghyd siaradwyr ar draws y sector i roi diweddariadau a mewnwelediadau ar ddeddfwriaeth a chyfraith achosion newydd.

5.7 Yn y bôn, mae ein hymrwymiad i hyfforddiant yn adlewyrchu ein buddsoddiad ehangach yn ein pobl. Trwy ddysgu parhaus, ymdrechwn i:

- Gwella sgiliau presennol
- Cynyddu cynhyrchedd
- Gwella cadw staff ac aelodau
- Cefnogi bod yn hyblyg o ran newidiadau deddfwriaethol
- Calonogi ymgysylltu

## 6 Cyngor Llywodraethu

6.1 Mae datganiad llywodraethu TPC ar **dudalen 16** yr adroddiad hwn.

6.2 Arweinir y Cyngor Llywodraethu gan Lywydd TPC, Carol Cobert, y mae ei chyfnod yn y swydd fel Llywydd i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth 2026.

6.3 Deiliaid eraill y Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Mr David Evans | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr David Subacchi | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr Thomas Wyn Jones | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |

Dechreuodd Mr Wyn Jones yn ei swydd o 1 Ebrill 2025.

6.4 Fel yr adroddwyd y llynedd, daeth cyfnod Penodai Llywodraeth Cymru yn y swydd i ben ym mis Rhagfyr 2023. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, erys y Cyngor Llywodraethu heb Benodai Llywodraeth Cymru; fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i ni fod dau Benodai Llywodraeth Cymru i fod i ddechrau yn y swydd o 1 Ebrill 2026 sy'n newyddion i'w croesawu.

6.5 Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, cwrddodd y Cyngor Llywodraethu 4 gwaith, Mehefin, Medi, Rhagfyr, a Chwefror. Roedd cyfarfodydd Mehefin a Medi yn cynnwys paneli penodi.

6.6 Digwyddiadau wyneb-yn-wyneb oedd y rhain a gynhaliwyd yn y Drenewydd neu'r Trallwng.

## 7 Staffio

7.1 Agorodd y flwyddyn gyda 18 swyddog mewn swyddi (2 yn y Tîm Rheoli Gweithredol, 3 Uwch Glerc Tribiwnlys, 9 yn Nhîm Clercod y Tribiwnlys, 3 yn y Tîm Cymorth Gweinyddol ac 1 Swyddog Cymorth TG).

7.2 Ym mis Medi/Hydref 2025 dechreuodd 2 aelod newydd o staff yn eu swyddi gyda TPC. Cymerodd Bryony Flowers a Nicola Hales swyddi fel Swyddogion Cymorth Gweinyddol.

7.3 Roedd dau reswm am y penodiadau hyn. Y rheswm cyntaf oedd absenoldeb hir dymor Jennifer O'Brien, a'r ail reswm oedd dyrchafiad Poppy Reynish i swydd Clerc Tribiwnlys. Cymerodd Poppy ei swydd newydd ar 1 Hydref 2025.

7.4 Cafwyd recriwtio ar gyfer Rheolwr Gweithredol gyda phedwar ymgeisydd yn cael cyfweliad. Rôl arbenigol yw hon sy'n gofyn am allu rheoli cryf, dealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth, a'r gallu i ymgymryd â gwaith tribiwnlys pan fo angen. Roedd ansawdd yr ymgeiswyr yn uchel, ac ystyriwyd mai'r ymgeiswyr mewnol oedd yn gweddu orau i'r swydd.


Felly, penderfynwyd secondio Jon Evans a Geraint Harris i'r rôl am gyfnod o 12 mis o 1 Hydref 2025. Bydd y secondiadau hyn yn galluogi un, os nad y ddau, ohonynt i ddangos eu cyfaddasrwydd am y rôl gan gefnogi cynllunio olyniaeth, gan fod y Rheolwr Gweithredol cyfredol wedi cyflwyno cais o'r blaen

i ymddeol yn raddol gyda golwg ar ymddeol o fewn y blynyddoedd nesaf yma. Yn ogystal â hyn, mae'n adfer y strwythur blaenorol oedd yn cynnwys dwy swydd rheoli gweithredol cyn i mi gael fy nyrchafu'n Brif Weithredwr yn 2023.

Gan fod y trefniant yma wedi gadael un Uwch Glerc Tribiwnlys yn unig yn ei swydd, hysbysebwyd y rôl yn fewnol. Llwyddwyd i benodi Sarah Gwilliam ar secondiad 12 mis o 1 Hydref 2025 a thrwy hynny, mynd i'r afael â'r diffyg ar y radd honno.

7.5 Fel adroddwyd o'r blaen, gwaetha'r modd roedd Jennifer O'Brien i ffwrdd ar absenoldeb salwch hir dymor am y flwyddyn adrodd gyfan.

7.6 Dangosir y sefyllfa staffio ar ddiwedd y flwyddyn yn y cynllun trefniadaeth isod:




7.7 Dechreuwyd recriwtio pellach am Glercod Tribiwnlys yn gynnar yn 2026, er mwyn sicrhau y byddai gan TPC ddigon o staff ar gyfer ailbrisio'r Dreth Gyngor yn 2028. Cyhoeddwyd hysbyseb ym mis Chwefror, a chynhelir y cyfweliadau ar ddechrau'r flwyddyn adrodd newydd. Y gobaith yw penodi hyd at 5 Clerc newydd yn y flwyddyn i ddod fydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ddiogelu'r gwasanaeth at y dyfodol a lliniaru'r risgiau a nodwyd yn y gofrestr risg drefniadaethol a gynhwysir yng nghynllun gweithredol TPC.

7.8 Mae recriwtio ar yr adeg yma yn sicrhau y bydd gan TPC ddigon o amser i hyfforddi staff newydd ac i wneud yn siŵr fod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i reoli tribiwnlysoedd yn effeithiol cyn ailbrisio'r Dreth Gyngor yn 2028.

7.9 Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, fel nodwyd eisoes, gweithredodd TPC raglen hyfforddi gynhwysfawr i wella sgiliau a gwybodaeth staff. Roedd y prif weithgareddau yn cynwys:

- **Cyfarfodydd Ymarferwyr**
- **Digwyddiadau Hyfforddi Staff Cyfan**
- **Cyrsiau Datblygiad Proffesiynol**
- **Hyfforddiant Arbenigol trwy weithdai mewnol a chyrsiau ar-lein**
- **Mynychu Cynadleddau**

7.10 Mae'r mentrau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad TPC i ddatblygiad proffesiynol parhaus [DPP] a buddsoddi yn y staff, gan sicrhau safonau gwasanaeth uchel i'r cyhoedd. Yn wir, cymeradwyodd y Cyngor Llywodraethu bolisi DPP newydd a fyddai'n helpu staff i fonitro eu gweithgaredd dros unrhyw flwyddyn benodol, a bydd hyn yn dod i rym o 1 Ebrill 2026.

7.11 Am yr ail flwyddyn yn olynol nid oedd cofnod salwch staff TPC yn cwrdd â'r KPI a osodwyd gan TPC, h.y. llai na 5 diwrnod o absenoldeb salwch fesul aelod staff. Gwaetha'r modd, eleni, nifer cyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul aelod staff oedd tua 16.3 dydd.

7.12 Mae'r ffigur hwn wedi'i aflunio gan salwch staff tymor hir. Nifer cyfartalog y dyddiau salwch fesul gweithiwr, o ddiddymu'r degradd uchaf ac isaf, oedd 2 ddydd.

## 8 Ystadau, cyfleusterau a thechnoleg

8.1 Mae prif swyddfa TPC yng Nghasnewydd wedi bod yn disgwyl i adnewyddiad ei les gael ei gwblhau am bron i flwyddyn; er hynny, mae'n dda gen i fedru adrodd bod y les ar gyfer swyddfa Gold Tops bellach wedi'i harwyddo. Mae TPC a'i ragflaenwyr wedi meddiannu'r eiddo ers y 1980au. Mae'r swyddfa wedi cael ei hailwampio'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n dal i ddiwallu anghenion y corff yn ddigonol. Mae'n brif swyddfa a chanolfan weinyddol TPC o hyd, gyda dwy ystafell wrandawiadau sydd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant a chyfarfodydd staff. O'r 19 aelod o staff, mae 13 wedi'u lleoli yno erbyn hyn gyda gweddill y staff yn gweithio o gartref. Mae TPC yn dal i logi mannau cyfarfod allanol mewn rhannau eraill o Gymru pan fo angen at ddibenion gwrandawiadau.

8.2 O fis Chwefror 2026, mae TPC wedi agor is-swyddfa yng Ngogledd Cymru. Wedi'i lleoli ym Mharc Busnes Llanelwy, mae'r swyddfa yn rhoi mwy o hyblygrwydd i staff yng Ngogledd Cymru sy'n gweithio o gartref trwy gefnogi ffordd o weithio fwy hybrid. Swyddfa gynllun agored yw hi, gydag ystafell gyfarfod gornel a all gael ei defnyddio ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlys bach. Cymerwyd les blwyddyn ar yr eiddo ac, os yw'r trefniant yn llwyddo, caiff y les ei hestyn hyd ddiwedd ei thymor cyfredol.

8.3 Mae TPC yn dal i redeg system ffôn gwmwl, fel bod modd ateb a throsglwyddo galwadau mewnol ac allanol yn hawdd rhwng staff yn y swyddfa a staff sy'n gweithio o bell. Mae cyfrif busnes Microsoft 365 yn darparu cyfleusterau cefn swyddfa safonol, gan gynnwys ebost. Mae system rheoli apelau'r Tribiwnlys wedi cael ei datblygu'n fewnol mewn cydweithrediad â'i gontractiwr datblygu TG annibynnol Mark Rastin ac mae'n storio ar gwmwl a hynny'n cael ei ddrychweddu ar storfa fewnol wrth gefn. Mewn ymateb i'r symud tuag at fwy o weithio hybrid, mae TPC wedi penderfynu peidio â newid cyfrifiaduron pen desg a bydd yn dibynnu'n fwy fwy ar liniaduron yn lle hynny.

## 9. Cyllid

9.1 Derbyniodd y Tribiwnlys ddyraniad cyllideb mwy ar ddechrau 2025, gan ddod â'i gyllideb ar gyfer y flwyddyn adrodd i £1,949,000. Bwriadwyd y cynnydd hwn i gefnogi codiadau cyflog disgwyliedig ac i dalu am gost y codiad yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

9.2 Daeth cyfanswm gwariant y flwyddyn i oddeutu **£1,529,171.67** sy'n cynrychioli **78.46%** o'r gyllideb o **£1,949,000** a ddyrannwyd. Roedd costau staffio yn cyfrif am **53.61%** o'r gyllideb, gyda chostau gweinyddol yn cyfrif am **24.85%**. Cafodd yr arian dros ben yn y gyllideb yn sgil hyn, sef **£419,828.33**, sy'n cynrychioli **21.54%** o'r gyllideb, ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.

9.3 Cafwyd y tanwariant yn bennaf oherwydd gohirio ailbrisio'r Dreth Gyngor, oedd i fod i ddigwydd yn 2025 ond sydd bellach wedi'i aildrefnu ar gyfer 2028. Hefyd, mae'r Tribiwnlys dal heb gwblhau recriwtio'r staff ychwanegol a ragwelwyd yn wreiddiol, ac felly nid oedd costau cysylltiedig ynghlwm, fel hyfforddiant, cyfarpar a thâl.

9.4 Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn hanfodol i ddiogelu'r corff yn y dyfodol a sicrhau ei fod wedi'i arfogi i reoli'r cynnydd disgwyliedig yn nifer yr apelau yn dilyn Ailbrisiadau AAN a Threth Gyngor.

9.5 Dadansoddiad o wariant TPC ar gyfer 2025-26;

| Maes Gwariant | £ | % |
|---|---|---|
| Costau Staffio | 1,044,829.13 | 53.61% |
| Costau Gweinyddu | 484,342.54 | 24.85% |
| Cyfanswm a Wariwyd | 1,529,171.67 | 78.46% |
| Tanwariant | 419,828.33 | 21.54% |
| Cyllideb | 1,949,000 | 100% |

# Datganiadau

**(yn ofynnol o dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)**

**Datganiad Llywodraethu**

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:

- Llywydd y Tribiwnlys
- y tri Chynrychiolydd Cenedlaethol
- ac, os y'u penodir, hyd at dri pherson a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)], fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygiad) [WSI 2017 Rhif 941 (W 234) & SI 2023 Rhif 775 (W121)].

Rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Cenedlaethol fod yn aelodau o'r Tribiwnlys a chânt eu hethol gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o dair blynedd. Cânt sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd tymor.

Manylir ar gyfrifoldebau cyfunol y Cyngor Llywodraethu, cyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Cenedlaethol a Phenodai Llywodraeth Cymru yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir o dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys Prisio. Mae Prif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys yn llofnodi ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethu’r Tribiwnlys yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar Ddinesydd Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).



**Carolyn Dawson**
**Prif Weithredwr - TPC**

**Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu**

Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a’r gofynion rheoli ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol a chofnodion Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad y cyfeirir atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig o fewn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn ei dro yn atebol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

Caiff y Prif Weithredwr ddirprwyo, i weithwyr y Tribiwnlys, weinyddu eu cyfrifoldebau o ddydd i ddydd ond mae'n parhau'n bersonol gyfrifol ac yn atebol amdanynt.



**Carolyn Dawson**
**Prif Weithredwr TPC**

# Atodiadau

**A** **Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd**

**B** **Data Clirio Apelau 2025/26**

**C** **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)– tabl canlyniadau**

**D** **Diffiniadau KPI ar gyfer 2025/26**

**E** **Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2025/2026**

**F** **Strwythur Trefniadaethol**

**Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd** (ynghyd â chyfartaleddau fesul aelod o dîm y Clercod Tribiwnlys): **Atodiad A**

| **Nifer y cyfarfodydd tribiwnlys** | | | | | | | | Nifer o aelodau yn nhîm y Clercod Tribiwnlys = 7.8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 7 | | | | | | | |
| Mai | 9 | **16** | at ddiwedd Mai | 2.05 | fesul clerc | 1.03 | fesul clerc y mis | |
| Mehefin | 9 | | | | | | | |
| Gorffennaf | 8 | **33** | at ddiwedd Gorffennaf | 4.23 | fesul clerc | 1.06 | fesul clerc y mis | |
| Awst | 7 | | | | | | | |
| Medi | 10 | **47** | at ddiwedd Medi | 6.41 | fesul clerc | 1.07 | fesul clerc y mis | |
| Hydref | 14 | | | | | | | |
| Tachwedd | 11 | **75** | at ddiwedd Tachwedd | 9.62 | fesul clerc | 1.20 | fesul clerc y mis | |
| Rhagfyr | 10 | | | | | | | |
| Ionawr | 12 | **97** | at ddiwedd Ionawr | 12.44 | fesul clerc | 1.24 | fesul clerc y mis | |
| Chwefror | 13 | | | | | | | |
| Mawrth | 13 | **123** | at ddiwedd Mawrth | 15.77 | fesul clerc | 1.31 | fesul clerc y mis | |
| **CYFANSWM** | **123** | | | | | | | |

| **Achosion a Restrwyd** | AAN 2023 | AAN 2017 | AAN Blaenorol | AAN Arbenigol | Rhestr TG | ADG | GDG | Hysbysiadau Cwblhau | Adolygiadau o Benderfyniad | CYFANSWM | Nifer ar gyfartaledd fesul clerc |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 0 | 175 | 0 | 2 | 63 | 2 | 0 | 0 | 0 | 242 | 31.03 |
| Mai | 0 | 81 | 1 | 1 | 52 | 9 | 0 | 0 | 0 | 144 | 18.46 |
| Mehefin | 0 | 58 | 1 | 1 | 60 | 5 | 3 | 0 | 1 | 129 | 16.54 |
| Gorffennaf | 1 | 43 | 0 | 0 | 97 | 6 | 0 | 0 | 0 | 147 | 18.85 |
| Awst | 0 | 32 | 0 | 6 | 95 | 5 | 2 | 0 | 0 | 140 | 17.95 |
| Medi | 2 | 24 | 0 | 17 | 95 | 4 | 0 | 0 | 1 | 143 | 18.33 |
| Hydref | 3 | 20 | 0 | 0 | 84 | 56 | 2 | 6 | 0 | 171 | 21.92 |
| Tachwedd | 2 | 16 | 0 | 5 | 98 | 9 | 2 | 0 | 1 | 133 | 17.05 |
| Rhagfyr | 2 | 19 | 0 | 0 | 102 | 5 | 2 | 0 | 1 | 131 | 16.79 |
| Ionawr | 0 | 12 | 0 | 5 | 83 | 6 | 1 | 0 | 2 | 109 | 13.97 |
| Chwefror | 14 | 44 | 0 | 7 | 101 | 47 | 1 | 0 | 0 | 214 | 27.44 |
| Mawrth | 9 | 38 | 0 | 2 | 110 | 7 | 1 | 0 | 0 | 167 | 21.41 |
| **CYFANSWM** | **33** | **562** | **2** | **46** | **1040** | **161** | **14** | **6** | **6** | **1870** | **239.74** |

# Data Clirio Apelau 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026 — Atodiad B

Ystadegau Apêl — 01/04/25 - 31/03/26

| **Treth Gyngor** | *D/Y* | *Derbyniwyd* | *Datryswyd* | *Penderfynwyd* | *C/Y* |
|---|---|---|---|---|---|
| Prisio | 698 | 1858 | 719 | 348 | 1489 |
| Hysbysiad Annilys | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hysbysiad Cosb | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hysbysiad Cwblhau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Atebolrwydd | 26 | 128 | 25 | 38 | 91 |
| Gostyngiad | 5 | 13 | 2 | 6 | 10 |
| Adolygiad o benderfyniad | 0 | 6 | 0 | 6 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **729** | **2005** | **746** | **398** | **1590** |

| **Ardrethu Annomestig** | *D/Y* | *Derbyniwyd* | *Datryswyd* | *Penderfynwyd* | *C/Y* |
|---|---|---|---|---|---|
| Prisio 2023 | 0 | 52 | 7 | 14 | 31 |
| Prisio 2017 | 434 | 1 | 364 | 50 | 21 |
| Prisio 2010 | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Hysbysiad Annilysrwydd 2017 | 5 | 0 | 2 | 1 | 2 |
| Hysbysiad Annilysrwydd 2010 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Hysbysiad Cosb | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| Hysbysiad Cwblhau | 0 | 6 | 0 | 0 | 6 |
| Adolygiad o benderfyniad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfansymiau** | **444** | **60** | **378** | **66** | **60** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif gyfansymiau** | 1173 | 2065 | 1124 | 464 | 1650 |

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol --- tabl canlyniadau

**Atodiad C**

| Mesur perfformiad | 2025/26 | Canlyniad 2025/26 | Targed 2026/27 | Rheswm dros unrhyw newid targed / neu fanylion/gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|
| Rhestru unrhyw apêl rhestr ardrethu 2023 o fewn chwe mis ar ôl eu derbyn | Newydd 2024 | 100% | 95% | Bellach mae apelau yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i TPC ac mae angen iddo wneud yn siŵr yr ymdrinnir â nhw mewn pryd. |
| Apelau AAN yn erbyn Rhestr Ardrethu 2023 i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r Tribiwnlys. | Newydd 2024 | 100% | 95% | Mae angen clirio apelau mewn modd doeth. |
| Rhestru unrhyw apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn 6 mis ar ôl eu derbyn | Newydd 2024 | 56% | 95% | 1,117 o restriadau apêl Treth Gyngor tro cyntaf gyda 631 (56%) yn cwrdd â'r targed chwe mis. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf niferoedd uchel o apelau a'r capasiti rhestru wedi'i leihau oherwydd oedi a achoswyd gan faterion yn ymwneud â system TG newydd y SB. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu perfformiad cryf gan TPC o dan bwysau gweithredol sylweddol. |
| Apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys | 95% | 87.5% | 95% | Roedd 996 o'r 1138 o achosion a gliriwyd yn ymwneud ag achosion oedd yn llai na 12 mis oed; mewn gwirionedd, roedd 12.5% o'r achosion hynny a gliriwyd wedi cael eu cofrestru fel apelau am dros 12 mis cyn cael eu datrys. Niferoedd uwch na'r norm o apelau a llai o restriadau, ar gais y SB oherwydd materion yn ymwneud â'i system TG newydd, oedd y prif ffactorau dros beidio â chwrdd â'r KPI. |
| Cyhoeddir penderfyniadau o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl | 95% | 96% | 95% | Cyhoeddwyd 18 allan o 458 penderfyniad (4%) y tu allan i'r targed 28 diwrnod. |
| Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion AAN a benderfynwyd | <0.50% | 0% | <0.50% | |
| Adolygiad PDG o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion PDG a benderfynwyd | <2.0% | 1.7% | <2.0% | 6 cais o 348 o benderfyniadau |
| Adolygiad ADG o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion ADG a benderfynwyd | <5.0% | 0% | <5.0% | |
| Penderfyniadau a gyfeiriwyd at lysoedd uwch. | <0.50% | 0.4% | <0.5% | 2 atgyfeiriad o 458 o benderfyniadau. |
| Penderfyniadau sy'n destun cwyn gan bartïon | <1.0% | 0% | <1.0% | |
| Nifer o honiadau â seiliau da iddynt a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys | sero | sero | sero | |
| Nifer o faterion â seiliau da iddynt yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn erbyn y tribiwnlys | sero | sero | sero | |
| Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch i beidio â bod yn fwy na 5 diwrnod gwaith. | <5 diwrnod | 16.3 diwrnod | <5 diwrnod | Mae'r ffigur wedi'i aflunio gan salwch staff tymor hir. Nifer cyfartalog y dyddiau salwch fesul gweithiwr, o ddiddymu'r degradd uchaf ac isaf, oedd 2 ddydd. |

## Diffiniadau KPI

(a) 95% o apelau Rhestr Ardrethu 2023 i'w rhestru o fewn 6 mis ar ôl eu derbyn.

(b) 95 % o apelau Rhestr Ardrethu 2023 i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu derbyn.

(c) 95% o apelau Treth Gyngor i'w rhestru o fewn 6 mis ar ôl eu derbyn.

(d) 95% o apelau Treth Gyngor i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu derbyn.

(e) Cyhoeddir 95% o'r holl resymau ysgrifenedig am benderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl

(f) Adolygiad ANN o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 0.5% o'r achosion a benderfynwyd

(g) Adolygiad PDG o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 2.0% o'r achosion a benderfynwyd

(h) Adolygiad ADG o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 5.0% o'r achosion a benderfynwyd

(i) Llai na 0.5% o'r holl benderfyniadau i'w cyfeirio at lysoedd uwch.

(j) Llai na 1.0% o'r holl benderfyniadau i fod yn destun cwyn gan bartïon

(k) Dim honiadau â seiliau da iddynt yn cael eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys

(l) Dim materion â seiliau da iddynt yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn erbyn y tribiwnlys

(m) Nid yw'r ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch i fod yn fwy na 5 diwrnod gwaith.

**Atodiad E**

| Maes gwariant | 2025/26 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm | Canran | Swm | Canran |
| Costau staff (ac eithrio pensiynau) | 887,358.80 | 58.03% | 813,705 | 59.96% |
| Costau pensiynau | 157,470.33 | 10.30% | 152,967 | 11.27% |
| **Is-gyfanswm** | **1,044,829.13** | **68.33%** | 966,672 | 71.23% |
| Costau swyddfeydd | 165,811.40 | 10.83% | 97,044 | 7.15% |
| Gwariant ar gyfrifiaduron | 122,422.50 | 8.01% | 107,563 | 7.93% |
| Gweinyddiaeth ganolog | 71,576.15 | 4.68% | 66,030 | 4.86% |
| Tribiwnlysoedd | 17,245.84 | 1.13% | 20,742 | 1.53% |
| Llywodraethu | 5,156.92 | 0.34% | 7,216 | 0.53% |
| Hyfforddiant aelodau | 68,625.74 | 4.49% | 38,223 | 2.82% |
| Hyfforddiant staff | 33,503.99 | 2.19% | 53,580 | 3.95% |
| Ad-daliad benthyciad | 0 | 0.00% | 0 | 0.00% |
| **Is-gyfanswm** | **484,342.54** | **31.67%** | 390,398 | 28.77% |
| **Cyfanswm** | **1,529,171.67** | | **1,357,070** | |

# Cynllun Trefniadaethol - 2025/26

| Cyngor Llywodraethu | | | |
|---|---|---|---|
| **Carol Cobert**<br>Llywydd Cenedlaethol | **David Evans**<br>Cynrychiolydd Cenedlaethol | **David Subacchi**<br>Cynrychiolydd Cenedlaethol | **Thomas Wyn Jones**<br>Cynrychiolydd Cenedlaethol |

| Cadeiryddion | Aelodaeth | Gweithwyr Cyflogedig |
|---|---|---|
| **24**<br>Cadeirydd | **40**<br>Aelod | **19**<br>Gweithiwr Cyflogedig |